**Sesiwn 2000-2001 Rhif 60**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 22 MAWRTH 2001

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Ethol y Dirprwy Brif Weinidog i’r Ymddiriedolaeth Carbon**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn nodi y bydd yr Ymddiriedolaeth Carbon yn dod i fodolaeth ar 1 Ebrill ac mai ei nod fydd annog mwy a mwy o fusnesau a sefydliadau eraill i fabwysiadu technoleg carbon isel.

2. Yn nodi bod manylion gweithredu’r Ymddiriedolaeth yng Nghymru wedi’u hystyried gan Bwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad ar 14 Chwefror, a’u bod wedi cael cefnogaeth gyffredinol y Pwyllgor hwnnw. (EDC 03-01).

3. Yn cytuno y dylai’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd fod yn aelod o’r Ymddiriedolaeth ac y dylid penodi un Cyfarwyddwr anweithredol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth o dan y pwerau yn adran 5 Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 ac adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru.

4. Yn nodi y byddai’r Cyfarwyddwr anweithredol cyntaf yn un o weision sifil hyn y Cynulliad.

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (15 munud)

Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Caiff cynnig trefniadol ei gynnig gan y Trefnydd o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen y *Cynnig Cyfansawdd* a ganlyn sy’n wahanol i’r gwaith y cytunwyd arno yn y Rhagolwg ar 13 Mawrth.**

***Cynnig cyfansawdd:***

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:*

*Yn cymeradwyo:*

*- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001, ac yn:*

*- Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2001.*

*Yn cymeradwyo:*

*- Rheoliadau Diwygio Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2001, ac yn:*

*- Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Diwygio Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2001.*

*Yn cymeradwyo:*

*- Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2001, ac yn:*

*- Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.*

*Yn cymeradwyo:*

*- Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2001, ac yn:*

*- Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2001.*

*Yn cymeradwyo:*

*- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2001, ac yn:*

*- Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2001, a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.*

**Gymeradwyo'r trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn rhwng y Prif Grwpiau Gwariant**

*Bod y Cynulliad Cenedlaethol*

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 14 Mawrth gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau.

Gosodwyd tabl yn dangos y newidiadau arfaethedig i Brif Grwpiau Gwariant 2000-2001 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth.

**Dadl i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig y Cynllun Cychwyn Cadarn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

O dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn

cymeradwyo ‘Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 5) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.

**Dadl i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Plant a Phobl Ifanc**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

O dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 6) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 14 Mawrth 2001.

**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol**

*Bod y Cynulliad hwn yn nodi:*

- *honiad y Weinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur yn Gwella Iechyd yng Nghymru bod "yr Ysbyty Cyffredinol Rhanbarthol traddodiadol wedi gwasanaethu poblogaeth o tua 200,000 i 250,000 o bobl. Mae cynllunio effeithiol o ofal eilaidd bellach yn gofyn inni ystyried poblogaeth sylfaenol o 500,000 o bobl neu fwy." (tud.16);*
- *yn dilyn hynny, casgliad y Weinyddiaeth yn Gwella Iechyd yng Nghymru y "[b]yddwn yn gweld gostyngiad cyffredinol yn nifer yr ysbytai traddodiadol" (tud. 16) yng Nghymru.*

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Weinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur i wneud y canlynol:*

1. cadarnhau na fydd unrhyw adran Damweiniau ac Achosion Brys yn cael ei chau;

2. gwrthod unrhyw gynllun i leihau nifer yr Ysbytai Cyffredinol Rhanbarthol fel bod dalgylch poblogaeth o 500,000 yn cael ei adlewyrchu;

3. cadarnhau na roir y gorau i’r model Ysbyty Cyffredinol Rhanbarthol;

4. darparu £20 miliwn i adeiladu Ysbyty Plant Cenedlaethol i Gymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol.

(1)+(2)

(3)+(4)

**1. Jocelyn Davies (De Ddwyrain Cymru)**

*Dileu pwynt 3 a rhoi'r canlynol yn ei le:*

'cydnabod nad yw cau ysbytai a'r canoli cynyddol ar wasanaethau'r NHS, sef polisïau a ddilynwyd dros y ddwy ddegawd diwethaf ac sy'n parhau i gael eu dilyn gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problemau NHS yng Nghymru'.

*Ac ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:*

5. Adolygu effeithiau Fformwla Barnett ar y setliad ariannol ar gyfer iechyd

6 Adolygu'r cysyniad o'r model economi iechyd, a drafodwyd yn y ddogfen 'Access & Excellence' i sicrhau bod:

- Y capasiti i ddarparu gwasanaethau yn Nghymru yn cael ei ddatblygu;
- Anghenion rhanbarthol Cymru yn cael eu hystyried

**2. Jocelyn Davies (De Ddwyrain Cymru)**

*Dileu pwynt 3 a rhoi'r canlynol yn ei le:*

'bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod bod ffosileiddio'r model presennol ar gyfer darparu gwasanaeth yn strategaeth anghynaliadwy na fydd yn gymorth i gynllunio strategol tymor-hir nac yn sicrhau gwelliant o ran gofal am gleifion.'

*Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig;*

5. Datblygu NHS yng Nghymru a fydd yn canolbwyntio ar y gymuned, ehangu a chryfhau rhwydwaith Cymru gyfan o ysbytai cymuned.

6.Cynyddu capasiti'r NHS yng Nghymru.

**3. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)**

*Dileu pwynt 3 gan roi'r pwynt canlynol yn ei le:*

"parhau i werthfawrogi gwaith yr Ysbytai Cyffredinol Rhanbarthol a sicrhau, yn y dyfodol, bod ysbytai sy'n cynnig gofal lefel eilaidd yn gymwys i'r rolau a'r swyddogaethau newydd y bydd NHS modern ac effeithiol eu hangen."

**4. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maseyfed)**

*Dileu pwynt 4 gan rhoi'r pwynt 4 canlynol yn ei le:*

"parhau gyda'i gefnogaeth i ddatblygu Ysbyty Plant yng Nghymru".

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni); Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 27 Mawrth 2001**

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**